Children and Young People Service/Gwasanaeth Plant a Phobl Ifanc

16 Lord Street, Wrexham LL11 1LG
16 Stryt yr Arglwydd, Wrecsam LL11 1LG
Tel/Ffôn: 01978 297505 Fax/Ffacs: 01978 298707
www.wrexham.gov.uk www.wrecsam.gov.uk

At: **Rieni/Gofalyddion Plant sy'n Gwneud cais am Gael eu Derbyn i Ddosbarthiadau Derbyn ym mis Medi 2012**

Your Ref/Eich Cyf	**R2012 Derbyn**
Our Ref/Ein Cyf	RAJ/ *adr2*
Date/Dyddiad	5 Medi 2011
Ask for/Gofynner am	Ann Jones
Direct Dial/Rhif Union	01978 297505
E-mail/E-bost	

Annwyl Riant/Gofalydd

Derbyn i Ddosbarth Derbyn mewn Ysgol Fabanod/Gynradd – Medi 2012

Mae'r Awdurdod Lleol (ALl) yn gorfod cyhoeddi rhywfaint o wybodaeth neilltuol am ei ysgolion a'i bolisïau. Bydd y rhain, yn ogystal â'r prosbectws y mae'r ysgol wedi'i baratoi, yn eich cynorthwyo i ddweud pa un yw eich dewis ysgol fabanod/gynradd, sef yr ysgol y byddech yn dymuno i'ch plentyn fynd iddi. Yn y 'Llawlyfr i Rieni a Gofalyddion' gan y Fwrdeistref Sirol fe gewch fraslun o'r wybodaeth hon ac mae copi ohono wedi cael ei gynnwys gyda'r ffurflen hon. Pe byddech yn dymuno mynd i weld ysgol cyn dweud pa un sydd orau gennych, yna dylech drefnu apwyntiad gyda'r pennaeth.

Sylwer: nid yw'r gyfraith yn gadael ichi ddewis ysgol i'ch plentyn; yr unig beth a wnaiff yw caniatáu ichi enwi ysgol yr hoffech i'ch plentyn ei mynychu. Wrth gwrs fe wnawn ein gorau glas i sicrhau bod eich plentyn yn cael lle yn eich dewis ysgol.

Bydd yr Awdurdod ond yn derbyn cyfeiriad cartref y disgybl ac ni fydd yn derbyn, er enghraifft, gyfeiriad gwarchodwr plant neu nain a thaid. Efallai y gofynnir i rieni ddarparu dogfennau swyddogol sy'n dangos cyfeiriad y cartref. Dylai rhieni sylweddoli y gallai lle mewn ysgol gael ei wrthod yn gyfreithlon os yw'r wybodaeth a roddir ar eu ffurflen gais yn dwyllodrus neu gamarweiniol, ac y gallai canlyniad hyn olygu na fyddai lle ar gael yn yr ysgol agosaf nesaf. Os na all dau riant gytuno pa ysgol/ysgolion sydd orau ganddynt, rhaid iddynt geisio cyngor cyfreithiol annibynnol, a gorchymyn llys priodol hefyd os oes rhaid, cyn iddynt gyflwyno eu hunig ffurflen gais i'r ALl.

Os oes gan eich plentyn anabledd a allai effeithio ar ei gynnydd a'i gyfranogiad ef/hi ym mywyd yr ysgol, yna cofiwch nodi hyn ar y ffurflen ac amgáu unrhyw ddogfennau ategol.

Os oes gan eich plentyn Ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig, bydd yr ALl yn gwneud ei orau glas i ganiatáu eich dewis ysgol fabanod/gynradd ond rhaid iddo sicrhau bod yr ysgol yn gallu

diwallu anghenion eich plentyn i'r eithaf. Unwaith y bydd yr ALl wedi derbyn eich cais, bydd un o swyddogion yr ALl yn ysgrifennu atoch ac efallai y bydd yn dymuno trefnu cyfarfod â chi er mwyn trafod addysg gynradd eich plentyn.

Bydd yr Awdurdod Derbyn yn derbyn disgyblion hyd at nifer derbyn yr ysgol (mae'r nifer hon i'w gweld yn y rhestr ysgolion sydd yn *'Canllaw Rhieni a Gofalwyr i Wasanaethau Addysg yn Wrecsam').* Bydd ceisiadau hwyr yn cael eu hystyried ar ôl i'r holl geisiadau hynny a gyflwynwyd erbyn **31 Hydref 2011** gael eu trin a'u trafod. Felly mae'n bwysig iawn ichi gadw at y terfyn amser dan sylw.

Dylai rhieni gofio os yw eu plentyn yn mynd i feithrinfa ar hyn o bryd, na ellir sicrhau lle iddo/iddi yn nosbarth derbyn yr ysgol honno.

Os ydych chi wedi enwi dewis ysgol gymunedol neu ysgol wirfoddol a reolir, yna bydd yr ALl yn ystyried eich cais. Fel arall, os ydych chi wedi enwi dewis ysgol a gynorthwyir gan Eglwys Gatholig neu Yr Eglwys yng Nghymru, yna bydd eich cais yn cael ei ystyried gan gorff llywodraethol yr ysgol honno. Felly fe'ch cynghorir i gysylltu'n uniongyrchol â'r ysgolion hynny er mwyn cael gwybodaeth ychwanegol cyn ichi ysgrifennu enw'ch dewis ysgol ar ffurflen yr ALl ynghylch gwneud cais am dderbyn.

Fe gymer peth amser i'r broses neilltuo gael ei chwblhau, ond fe gewch wybod erbyn **23 Mawrth 2012** a neilltuwyd lle i'ch plentyn ai peidio, yn eich dewis ysgol.

Os na fydd yr ALl, neu gorff llywodraethol yr ysgol yn achos y sector ysgolion gwirfoddol a reolir, yn gallu cydsynio â'ch dewis a'i fod yn methu neilltuo lle i'ch plentyn yn eich dewis ysgol, yna bydd gennych yr hawl i gyflwyno sylwadau i banel apêl annibynnol.

Os byddwch chi'n dewis ysgol wahanol, ac nid eich ysgol fabanod/gynradd agosaf, yna ni fydd yr Awdurdod mewn sefyllfa i ddarparu cludiant i'ch plentyn. Felly eich cyfrifoldeb chi fydd gwneud trefniadau o'r fath a thalu amdanynt. Mae manylion y Polisi Cludiant i'w cael yn llyfryn y Fwrdeistref Sirol 'Canllaw Rhieni a Gofalwyr i Wasanaethau Addysg yn Wrecsam'.

Pe byddai eich amgylchiadau'n newid ar ôl ichi gyflwyno eich ffurflen dderbyn a'ch bod yn gorfod newid eich dewis ysgol, cofiwch gysylltu â'r Swyddfa Dderbyniadau ar 01978 297505.

Byddwch cystal â chadw'r llythyr hwn yn ddiogel. Yna dylech lenwi'r ffurflen gais amgaeedig a'i hanfon at bennaeth eich dewis ysgol erbyn 31 Hydref 2011. Os oes gennych unrhyw bryderon neu ymholiadau am gynnwys y llythyr hwn, mae croeso ichi gysylltu â'r Swyddfa Dderbyniadau.

Yn ddiffuant

John Davies
Head of Lifelong Learning

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM
CAIS AM LE MEWN DOSBARTH DERBYN – MEDI 2012

ADRAN 1 – MANYLION Y PLENTYN

CYFENW/ENW TEULU'R PLENTYN:	
ENW(AU) CYNTAF Y PLENTYN:	

RHYWEDD Y PLENTYN: *(ticiwch y blwch priodol)* Gwryw: Benyw: DYDDIAD GENI:

CYFEIRIAD CARTREF: *(Cyfeiriad <u>parhaol</u> y plentyn)*	
	COD POST:

Byddwch cystal â rhoi gwybod i'r Tîm Derbyn os bydd cyfeiriad y plentyn yn newid yn ystod y drefn dderbyn. Os bydd lle'n cael ei gynnig ar sail yr wybodaeth a roddir ar y ffurflen hon, gwybodaeth a sylweddolir, yn ddiweddarach, sy'n dwyllodrus neu'n fwriadol gamarweiniol, yna fe allai'r lle gael ei wrthod. Fe allai'r Awdurdod ofyn am ddogfennau swyddogol i brofi ble mae'r plentyn yn byw.

ENW(AU) Y RHIANT(RHIENI) NEU'R GOFALYDD(ION) SYDD Â CHYFRIFOLDEB RHIANT (gweler tudalen 9 *'Canllaw Rhieni a Gofalwyr i Wasanaethau Addysg yn Wrecsam')*

Mr/Mrs/Miss/Ms	Llythrennau blaen:	Cyfenw:	Rhif ffôn y cartref/Symudol ystod y dydd:
Mr/Mrs/Miss/Ms	Llythrennau blaen:	Cyfenw:	Rhif ffôn y cartref/Symudol ystod y dydd:
CYFEIRIAD(AU) (os yw'n wahanol i gyfeiriad y disgybl) a rhif ffôn y cartref (os yw ar gael):			

ADRAN 2 – MANYLION Y DEWIS YSGOL

Wedi ichi benderfynu ar y math o ysgol sydd orau gennych, rhestrwch eich 3 dewis isod yn nhrefn eich dewis. *(Gallwch edrych ar 'Ganllaw Rhieni a Gofalwyr i Wasanaethau Addysg yn Wrecsam' i gael ragor o wybodaeth am ysgolion cyfrwng Saesneg, cyfrwng Cymraeg a'r rhain hynny a gynorthwyir gan eglwys).* Os ydych chi'n dweud bod yn well gennych chi ysgol a gynorthwyir gan eglwys, neu ysgol y tu allan i Fwrdeistref Sirol Wrecsam, **RHAID ichi gysylltu hefyd â'r awdurdod derbyn priodol ar gyfer yr ysgol honno,** oherwydd y bydd angen gwybodaeth ychwanegol, o bosibl, i ategu eich cais.

Dewis 1af	
2il Ddewis	
3ydd Dewis	
Rhowch y rhesymau dros eich dewis *(ysgrifennwch ragor ar ddarn arall o bapur os oes rhaid)*	

Nid yw enwi dewis ysgol yn sicrhau y caiff eich plentyn ei dderbyn i'ch dewis ysgol. Os nad ydych yn enwi 3 dewis, neu eich bod yn cyflwyno'r ffurflen hon yn hwyr, bydd hynny'n golygu y bydd eich plentyn yn llai tebygol o allu mynd i ysgol o'ch dewis chi.

Os yw eich plentyn eisoes yn mynychu dosbarth meithrin mewn ysgol, nid oes sicrwydd y caiff le yn nosbarth derbyn yr ysgol honno.

ADRAN 3 – GWYBODAETH YCHWANEGOL

Y FEITHRINFA BRESENNOL
(os yw'n berthnasol)_____

A yw'ch plentyn wedi cael Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig ac a yw ef/hi'n cael ei fonitro gan Wasanaeth Cynhwysiad Addysg Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam?	Ydyw	Nac Ydyw
A yw'r plentyn yn **Derbyn Gofal gan Awdurdod Lleol** (mewn gofal cyhoeddus)? Dywedwch ba Awdurdod Lleol:	Ydyw	Nac Ydyw

Os NAD yw'r plentyn yn byw ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam ar hyn o bryd, ticiwch y blwch ☐

BRODYR A CHWIORYDD (ac unrhyw blant eraill sy'n byw yn yr un cyfeiriad)

Enwau brodyr a chwiorydd (bydd brodyr a chwiorydd llawn, hanner, llys neu faeth yn cael eu hystyried yn berthnasol pan fyddant yn byw gyda'i gilydd) a fydd yn dal i fynychu'r dewis ysgol ym mis Medi 2012.

Enw'r Brawd neu Chwaer	Dyddiad Geni	Grŵp Blwyddyn Presennol

A fyddech gystal â nodi unrhyw broblemau neu anawsterau arbennig (naill ai addysgol, meddygol, corfforol, cymdeithasol neu emosiynol a allai effeithio ar addysg eich plentyn):

Ysgrifennwch ragor ar ddarn arall o bapur os oes rhaid…

Os bydd nifer y ceisiadau i'ch dewis ysgol yn uwch na'r nifer o leoedd sydd ar gael, yna bydd yr wybodaeth a roddwch yn cael ei defnyddio i raddoli blaenoriaeth eich plentyn yn ôl y meini prawf sydd gan yr ysgol berthnasol ynghylch gormod o geisiadau a phrinder lleoedd. Ar gyfer ysgolion cymunedol gweler tudalen 10 'Canllaw Rhieni a Gofalwyr i Wasanaethau Addysg yn Wrecsam'.

DATGANIAD Y RHIANT/GOFALYDD

Rwyf yn datgan bod yr holl wybodaeth a roddais yn wir. Rwyf yn sylweddoli y gellid gwrthod unrhyw le mewn ysgol a neilltuir ar sail gwybodaeth dwyllodrus neu wybodaeth sy'n fwriadol gamarweiniol. Rwyf yn sylweddoli y gallai'r wybodaeth a roddwyd ar y ffurflen hon, gael ei rhannu ag ALl cyfagos er mwyn cydlynu'r trefniadau derbyn.

Llofnod y Rhiant/Gofalydd ……..….. Dyddiad ……..

Fe allai'r wybodaeth sydd gan yr ALl am ddisgyblion, eu rhieni neu eu gwarcheidwaid cyfreithlon, gael ei rhoi i sefydliadau eraill pan mae'r gyfraith yn caniatáu hynny.
Er mwyn cael gwybodaeth ychwanegol ynghylch sut mae eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio a pha hawliau sydd gennych i weld yr wybodaeth sydd gennym amdanoch, byddwch cystal â bwrw golwg ar yr hysbysiad preifatrwydd sydd ar ein gwefan yn www.wrecsam.go.uk

DYLID DYCHWELYD Y FFURFLEN HON AT BENNAETH EICH DEWIS YSGOL ERBYN 31 HYDREF 2011